**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Busnes**

**Rhagfyr 2010**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried y Mesur Arfaethedig ynghylch Tai (Cymru)

1. Ar 22 Tachwedd 2010, cafodd Mesur arfaethedig Llywodraeth, 'Mesur ynghylch Tai (Cymru)', ei gyflwyno yn y Cynulliad.

2. Ar 16 Tachwedd 2010, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 23.21, i gyfeirio'r Mesur arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

3. Ar 30 Tachwedd 2010, yn unol â Rheol Sefydlog 23.19, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 18 Ionawr 2011.

4. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i atal Rheol Sefydlog 23.30, sy'n nodi bod yn rhaid i 15 diwrnod gwaith fynd heibio rhwng dechrau Cyfnod 2 a dyddiad cyfarfod nesaf y pwyllgor sy'n ystyried trafodion Cyfnod 2, er mwyn galluogi'r Pwyllgor hwnnw i gwrdd 10 diwrnod gwaith ar ôl dechrau Cyfnod 2. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 23 Chwefror 2011.